Cyngor Sir Powys

Powys

# Tîm Cymorth Cynnar

## Yma i helpu

**Rydym ni yn y tîm Cymorth Cynnar yn deall ei bod yn anodd bod yn rhiant ar adegau. Gall fod yn unig a theimlo fel bod eraill bob amser yn ein beirniadu, yn enwedig pan fyddwn yn mynd trwy gyfnod anodd. Gallwn gael ein llethu, gan fod angen cymorth gyda'n plentyn/plant, ond i ble rydyn ni'n troi am gefnogaeth?**



**"DIOLCH YN FAWR IAWN AM EICH CYMORTH. FE OEDDECH CHI YNO PAN OEDDWN I EICH ANGEN CHI AC FE WNAETHOCH CHI FY HELPU DRWY GYFNOD ANODD."**

## TEULUOEDD CRYFACH

Gallwn adnabod beth yr ydych yn ei wneud yn dda yn barod a rhoi'r offer a'r strategaethau i chi i'ch grymuso i gymryd rheolaeth yn ôl, i dyfu fel teulu a gwneud newidiadau cadarnhaol. Mae ymyrraeth yn canolbwyntio ar gefnogi rhieni sy'n cael trafferth gyda magu plant.

Er enghraifft;

- Gwahaniaethau mewn arddulliau magu plant
- Arferion a ffiniau
- Perthnasoedd
- Ymddygiadau amhriodol

## CEFNOGAETH I DEULUOEDD

Byddwn yn gweithio gyda chi, eich teulu ac asiantaethau mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau, gan eich galluogi chi i gydnabod a myfyrio ar ba mor dda yr ydych yn gwneud yn ogystal â pha feysydd yr hoffech weld newidiadau ynddynt. Gallwn gefnogi gyda feysydd mwy cymhleth o fywyd teuluol ac yn gallu cynnig gwasanaeth cymorth hyblyg a chreadigol, yn eich cartref, ysgol neu/a chymuned.

Dyma rai o'r meysydd y gallwn eich cefnogi chi ynddynt:

- Adnabod eich nodau eich hun
- Datblygu cynllun gweithredu clir
- Profedigaeth a cholled
- Gorbryder
- Gwahaniad Rhieni
- Pryderon ymddygiadol
- Trawma / profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n cael effaith negyddol arnoch chi, plentyn neu berson ifanc

## GRWPIAU MAGU PLANT



Mae gennym amrywiaeth o grwpiau magu plant lle byddwch yn dysgu llawer o strategaethau i gryfhau a datblygu eich perthynas â'ch plentyn/plant. Mae'r grwpiau'n cynnwys:

- Blynyddoedd Rhyfeddol Babanod (0-12 mis)
- Blynyddoedd Rhyfeddol Plant Bach (1-3 oed)
- Blynyddoedd Rhyfeddol Cyn-ysgol (3-6 oed)
- Blynyddoedd Rhyfeddol Oedran Ysgol (6-12 oed)

## GWASANAETH GWYBODAETH I DEULUOEDD

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn siop un stop lle gall rhieni, gofalwyr, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ddod o hyd i amrywiaeth o wybodaeth i blant a phobl ifanc 0-25 oed a'u teuluoedd. Gallwn helpu gyda:

- Ariannu gofal plant
- Grwpiau a gweithgareddau
- Cyfeirio at wasanaethau eraill
- Rhannu cyngor rhianta trwy ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.



## Cysylltwch â ni


01597 826246

earlyhelp@powys.gov.uk

**Grwpiau Magu Plant**

parentinggroups@powys.gov.uk

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**

01874 612419

fis@powys.gov.uk

www.facebook.com/FISPowys


**"MAE EICH CEFNOGAETH A'CH GWYBODAETH WEDI FY HELPU I A FY MHLENTYN I DDATBLYGU PERTHYNAS A DEALLTWRIAETH."**

**"ROEDDWN I JYST EISIAU DWEUD BOD EICH AGWEDD A'CH CHWILFRYDEDD YNGHYLCH EIN PRYDERON YN GWBL RHAGOROL."**